

Beth yw Anthem?

Trosolwg

Diben y gweithgaredd hwn yw creu cân anthemig, dawns debyg i'r Haka ar gyfer tîm rygbi Cymru a dawns greadigol sydd wedi'i hysbrydoli gan stori o'r Mabinogion. Bydd y disgyblion yn:

- Gwrando ar anthemau gwahanol ac yn eu harfarnu
- Creu Anthem Genedlaethol newydd sbon i Gymru
- Creu Haka Cymreig ac arfarnu perfformiadau dawns
- Dysgu stori Bran a Branwen o'r Mabinogion
- Cynllunio bwrdd stori ar gyfer dawns greadigol
- Ymarfer a pherfformio eu dawns greadigol

Cyfoethogi

- Cyfleoedd i gydweithio gyda cherddorion, dawnsywyr, storiwyr, coreograffwyr, dylunwyr gwisgoedd ac artistiaid coluro

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Dyma brif rannau'r Cwricwlwm y mae'r gweithgaredd cyfoethog hwn yn ymdrin â hwy:

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh): Sgiliau Llythrennedd

Llythrennedd Digidol

Cerddoriaeth: Sgiliau: P1, P3, P6-8; C2, C4; A1-3

Addysg Gorfforol: Sgiliau: CA 2- 6, 8

Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

- Taflen Map Cylch
- Taflen bwrdd stori
- Clipiau fideo gydag awgrymiadau am ymarferion cynhesu a chanllawiau ar greu dawns Haka

Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael

- Cyfrifiadur/mynediad i'r rhyngwrwyd
- iPads neu offer recordio fideo arall
- Llungopïau/taflenni perthnasol wedi'u chwyddo
- Lleoedd i grwpiau weithio ynddynt o amgylch yr ysgol os oes modd

Paratoi

- Clipiau fideo perthnasol parod
- Taflenni gwaith perthnasol wedi'u llungopïo
- Lleoedd wedi'u trefnu/cytuno gydag aelodau eraill o staff

Tasg 1: Beth sy'n gwneud anthem yn arbennig?	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p><i>Bydd y disgyblion yn gwrando ar ddetholiad o anthemau cenedlaethol ac yn dysgu beth yw anthem. Nod Tasg 1 yw darparu gwybodaeth gefndir ac enghreifftiau fel bod disgyblion yn gallu rhoi cynnig ar ysgrifennu eu hanthem eu hunain</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • TRAFOD – Pa ganeuon wnaethoch chi eu mwynhau? Beth yw eich hoff gân? Dychmygwch ddewis un gân i gynrychioli'r dosbarth cyfan – a fyddai'n hawdd? Felly dychmygwch ddewis cân i gynrychioli cenedl gyfan! Beth ydyn ni'n galw'r caneuon hyn? Beth sy'n gwneud anthem yn arbennig? Beth yw ei diben? • GWYLIO/ARFARNU/CANU – Pa un o'r anthemau hyn sydd well gennych a pham? Mae Hen Wlad Fy Nhadau, gan Gôr Meibion https://www.youtube.com/watch?v=8XiSpdeVbbw Anthem Cymru wedi'i chanu yng Nghanolfan y Mileniwm cyn gêm rygbi. https://www.youtube.com/watch?v=AM4mIYKG9s Anthem Genedlaethol y Deyrnas Unedig, God Save the Queen https://www.youtube.com/watch?v=G9eK9fWUb3s Anthem Genedlaethol yr Unol Daleithiau, The Star Spangled Banner https://www.youtube.com/watch?v=jAYPN-1Yjt0 • TRAFOD – O safbwynt cerddorol, beth sydd gan yr anthemau hyn yn gyffredin? Trafodwch mewn grwpiau, gan ganolbwyntio ar Elfennau Cerddorol e.e. Hyd (mae'r enghreifftiau hyn oll mewn curiadau o 3), Tempo (cyflym, arafach er mwyn caniatáu i grwpiau mawr o bobl ganu gyda'i gilydd), Traw (yn dechrau gyda'r nodau isaf yna'n taro'r nodau uchaf yn nes ymlaen, yn aml yn y gytgan), Dynameg (yn dechrau'n dawel, gan adeiladu at sŵn uwch, buddugoliaethus). 	<p>Cyfansoddwr caneuon neu gerddor i ddarparu mewnbyn arbenigol...</p> <p>Cerdd Gymunedol Cymru http://communitymusicwales.co.uk/cy/</p> <p>Tŷ Cerdd http://www.tycerdd.org/about-us</p> <p>Ystyriwch gysylltu â chôr lleol – allai eu cyfeilydd ddod i mewn i'r ysgol i siarad am ganeuon anthemig?</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwrando'n ofalus LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu</p>

Beth yw Anthem?

<ul style="list-style-type: none">• YSGRIFENNU – Gan ddefnyddio'r daflen Map Cylch a ddarparwyd, bydd grwpiau yn ychwanegu nodiadau Post-it er mwyn cofnodi'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu am anthemau• TRAFOD/GWRANDO/ARFARNU – A all cân bop/roc fod yn anthem? Chwaraewch y ddolen ar gyfer cân y Manic Street Preachers – Design for Life – a oes ganddi nodweddion anthem? https://www.youtube.com/watch?v=TfEoVxy7VDQ		

Tasg 2: Creu geiriau ar gyfer Anthem Genedlaethol newydd i Gymru	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p><i>Mae'r disgyblion wedi gwrandao ar anthemau a'u harfarnu. Nod Tasg 2 yw creu barddoniaeth a fydd yn sail i'r pennill a'r gytgan ar gyfer eu hanthem newydd i Gymru</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • TRAFOD – Ar gyfer pencampwriaeth rygbi nesaf y Chwe Gwlad, mae Undeb Rygbi Cymru wedi gofyn a ellir creu anthem newydd. Caiff yr anthem ei chanu gan y chwaraewyr a'r dorf cyn y gemau. Rhaid iddi fod yn gyffrous ac yn anthemig. Pa feini prawf llwyddiant eraill fyddai gan Undeb Rygbi Cymru yn eich barn chi? • TRAFOD – Pwysigrwydd y geiriau, a sut mae rhai geiriau/ymadroddion yn awgrymu bod cân yn anthem genedlaethol. Er enghraifft, mae'r gair 'Gwlad' yn codi sawl gwaith, felly roedd yr awdur yn teimlo ei fod yn bwysig iawn. • YSGRIFENNU – Pa eiriau sy'n bwysig i'w defnyddio yn eich anthem newydd? Mewn parau/grwpiau, dylai disgyblion greu Diagram Corryn o'r geiriau mwyaf hanfodol. Beth sy'n eu gwneud yn falch o fod yn Gymro/Cymraes? Beth sy'n unigryw am Gymru, ei thirwedd, ei phobl a'i hanes? • YSGRIFENNU – Gan ddefnyddio'r geiriau hyn fel man cychwyn, gallai'r disgyblion weithio mewn parau/grwpiau i greu cerdd 8 llinell sy'n cynnwys disgrifiad a theimlad, gan osod y cefndir am Gymru a pham mae'n arbennig. Ceisiwch annog y disgyblion i gadw at gyflymdra cyson wrth ddarllen eu syniadau ar goedd, a pheidio â mynd yn rhy gyflym – mae'r rhan fwyaf o anthemau ar gyflymdra cerdded. Y gerdd hon fydd eu Pennill. • YSGRIFENNU – Bydd y disgyblion yn creu cerdd arall sy'n 4 neu 8 llinell. Y tro hwn, bydd angen iddi gael teimlad/neges sy'n bwysig i bawb (atgoffwch nhw o 'Gwlad Gwlad'). Dyma Gytgan yr anthem, 	<p>Bardd/awdur... Llenyddiaeth Cymru, ewch i'w cronfa ddata ar awduron Cymru http://www.litereaturewales.org/</p> <p>Ymweld ag ysgol uwchradd leol... aelod o'r adran Saesneg i roi gwerau ar ysgrifennu barddoniaeth</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwrandao ar eraill LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Darllen DS2: strategaethau darllen i ddatgodi geiriau DS3: darllen testunau gwahanol DS6: dibenion a nodweddion gwahanol destunau DD3: adnabod gwybodaeth DD4: dod i gasgliad DYD2: ymateb i destun DYD3: gwneud cysylltiadau DYD5: safbwyntiau awduron gwahanol DYD6: gwerthuso cynnwys</p> <p>Ysgrifennu YY1: ysgrifennu at ddibenion</p>

neges glir, sy'n ailadrodd ei hun o bosibl, ac yn aros yn y cof.

- **GWRANDO/ARFARNU** – Pan fydd y cerddi i gyd wedi'u cwblhau, dewiswch y 3 hoff bennill, 3 hoff gytgan a'u darllen ar goedd. Arfarnwch nodweddion gorau pob un – pa un sydd â geiriau cryf, sy'n angerddol, sydd â churiad da o'r dechrau hyd y diwedd? Y dosbarth fydd yn penderfynu pa bennill a chytgan i'w defnyddio.

gwahanol

YY2: cynnwys manylion

YY3: cynllunio gwaith

ysgrifennu

YS1: defnyddio strwythurau

penodol wrth ysgrifennu

YI1: defnyddio iaith sy'n

briodol ar gyfer ysgrifennu

YI2: datblygu geirfa

Tasg 3: Creu alaw ar gyfer Anthem Genedlaethol newydd i Gymru	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FflIRh
<p><i>Mae'r dosbarth wedi dewis eu pennill a'u cytgan fwyaf effeithiol. Nod Tasg 3 yw creu alaw addas ar eu cyfer</i></p> <ul style="list-style-type: none">TRAFOD/GWYLIO – Gall ysgrifennu alaw ar gyfer geiriau fod yn dasg anodd i ddisgyblion. Trafodwch elfen gerddorol 'traw' a sut mae alawon yn aml yn camu'n llyfn o un nodyn i'r llall (fel cerdded i fyny ac i lawr y grisiau) ac yna efallai y byddan nhw'n ychwanegu ambell naid rhwng nodau er amrywiaeth. Mae'r clip isod o 'Ode to Joy' gan Beethoven yn dangos hyn, mae'r adran gyntaf yn cynnwys 'camau' ac yn nes ymlaen ceir 'neidiau' https://www.youtube.com/watch?v=siDZXR-zbwITRAFOD – Nid oes rhaid newid nodau o hyd – gall aros ar un nodyn, a'i ailadrodd mewn ffordd rythmig fod yn effeithiol iawn. Atgoffwch y disgyblion o'r anthemau a astudiwyd ganddyn nhw. Roedden nhw'n dechrau gyda'r nodau isaf ac yn cadw'r nodau uchaf tan yn ddiweddarach er mwyn i'r gân allu adeiladu at uchafbwynt.GWAITH BYRFYFYR/CYFANSODDI – Rhowch gopi o eiriau'r pennill/cytgan a ddewiswyd o'r wers ddiwethaf i bob disgybl. Bydd cerddorion Mwy Abl a Thalentog ac aelodau o gôr yr ysgol yn ei chael hi'n haws creu alawon, gan fod hyn yn heriol. Gall iPads fod yn ddefnyddiol – gallai disgyblion ddod o hyd i le tawel a recordio eu syniadau am alawon gyda'r camera fideo er mwyn i'r athro allu gwrandao arnynt eto. Efallai y bydd disgyblion hyderus yn gallu canu eu syniadau gerbron y dosbarth er mwyn iddynt eu harfarnu, ond yn aml bydd angen i'r athro dosbarth wrando ar y syniadau a'u canu gerbron y dosbarth er mwyn iddyn nhw allu penderfynu.GWAITH ESTYNEDIG – Gallech benderfynu bod cyfansoddi'r alaw yn dasg estynedig ar gyfer eich disgyblion cerddoriaeth Mwy Abl a Thalentog, gan weithio mewn grŵp bach gyda'r Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu neu gydweithio gyda chyfansoddwr caneuon lleol.	<p>Ymweliad gan gyfansoddwr caneuon...</p> <p>Cerdd Gymunedol Cymru http://communitymusicwales.co.uk/cy/</p> <p>Tŷ Cerdd http://www.tycerdd.org/about-us?diablo.lang=cym</p> <p>Cwmnïau recordio http://www.sainwales.com/cy/ http://www.fflach.co.uk/cms/in dex.php</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS5: chwarae rôl LLG1: gwrandao'n ofalus LLG3: ymateb i eraill LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Darllen DD3: adnabod gwybodaeth DD4: dod i gasgliad DYD5: safbwyntiau awduron gwahanol DYD6: gwerthuso cynnwys</p> <p>Ysgrifennu YY1: addasu arddull ysgrifennu i'r diben YY4: archwilio ffyrdd o gyflwyno gwaith YY5: ystyried, golygu ac ailddrafftio. Y12: geirfa amrywiol</p>

<ul style="list-style-type: none"> • YMARFER/PERFFORMIO – Pan fydd yr alaw ar gyfer y pennill a’r gytgan wedi’i chwblhau, defnyddiwch iPad i recordio eich cantorion mwy abl yn ei pherfformio. Chwaraewch hi i’r dosbarth er mwyn iddynt allu ei dysgu. Er mwyn iddi fod yn anthem lwyddiannus, mae angen ei chanu â balchder a mwynhad. Bydd y dosbarth yn ymarfer ei chanu’n ddigyfeiliant, heb offerynnau, ac yn ei recordio. Gwrandewch arni eto a phenderfynwch a yw’n swnio fel anthem. Os nad yw, beth y gellir ei wneud i’w gwella? 		
--	--	--

Tasg 4: Haka Cymreig!	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FfRfLI
<p><i>Oeddech chi’n gwybod? Cafodd yr Anthem Genedlaethol ei chanu a’i recordio cyn digwyddiad chwaraeon rhyngwladol am y tro cyntaf yn 1905. Canodd y dorf o Gymru Hen Wlad Fy Nhadau mewn ymateb byrfyfyr i Haka traddodiadol tîm rygbi Seland Newydd ym Mharc yr Arfau, Caerdydd.</i></p>		
<p>Hoffai Undeb Rygbi Cymru i dîm Cymru gael eu dawns Haka eu hunain ar gyfer y tro nesaf y byddant yn chwarae yn erbyn Seland Newydd. Nod tasg 4 yw creu Haka Cymreig</p> <ul style="list-style-type: none"> • TRAFOD – Ydych chi wedi gweld Haka Seland Newydd? Pam fod eu chwaraewyr yn ei wneud? Sut olwg sydd arno? A yw’n cynnwys symudiadau ar hap gyda phawb yn gwneud eu peth eu hunain? Neu ydyw wedi’i drefnu a’i goreograffu? • GWYLIO – Clipiau o’r Haka – dawns ryfel neu her i’r tîm arall, gan wledydd fel Seland Newydd a Samoa. https://www.youtube.com/watch?v=lqfHv9FOpXw 	<p>Gwahoddwch ddawnsiwr proffesiynol i arwain gweithdy</p> <p>Cysylltwch ag ysgolion dawns lleol/sefydliadau dawns cymunedol</p> <p>Y Sefydliad</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd</p> <p>LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau</p> <p>LLS3: sgwrs fwy estynedig</p> <p>LLG1: gwrando’n ofalus</p> <p>LLG3: gofyn cwestiynau</p> <p>LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth</p> <p>LLC2: siarad yn bwrpasol</p>

https://www.youtube.com/watch?v=yiKFYTFJ_kw

- **SYMUD/MODELU** – Faint o symudiadau y gallwch chi eu cofio? Pa grŵp sy'n gallu cofio a pherfformio'r mwyaf? (e.e. sefyll yn uchel, curo'ch traed, mynd ar eich cwrcwd, llafarganu ac ati)
- **YMCHWIL** – Drwy wyllo'r clipiau ar-lein gan ddefnyddio'r iPads/gliniaduron, bydd y disgyblion yn ymchwilio i'r hyn sy'n gwneud dawns Haka dda. Faint o symudiadau sydd? Beth yw'r symudiad cyntaf? Pa synau a ddefnyddir? (Ydyn nhw'n sylwi bod y symudiadau'n gryf ac yn ailadroddus, a bod gan y llafar-ganu strwythur cwestiwn ac ateb?)
- **CREU/YMARFER/MIREINIO/PERFFORMIO** – Gan ddefnyddio eu gwaith ymchwil fel ysbrydoliaeth, bydd y grwpiau'n creu eu Haka eu hunain ar gyfer tîm Cymru (a fydd eu llafar-gân yn cynnwys geiriau Cymraeg?) Byddan nhw'n ei chynllunio, ei ymarfer a'i mireinio cyn ei pherfformio i'r dosbarth. Pa un fyddai'n fwyaf effeithiol yn erbyn y Crysau Duon yn Stadiwm y Mileniwm? Byddai'n ddefnyddiol cael lleoedd gwag o amgylch yr ysgol i anfon grwpiau iddyn nhw. Gwylwch y **Fideo Cynhesu** am syniadau ar weithgareddau cynhesu i'ch disgyblion.
- **GWAITH ESTYNEDIG** – A all y disgyblion gyfuno'r broses o ganu eu Hanthem Genedlaethol newydd a dawnsio eu Haka Gymreig mewn un perfformiad? Gallai hwn fod yn berfformiad arbennig ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

Dawns

Cymunedol

<http://www.communitydance.org.uk/about-community-dance.html>

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru

<http://www.ndcwales.co.uk/cy/cyfrannwch/>

Bale Cymru

<http://welshball.et.co.uk/hafan/>

Edrychwch ar y map aelodau ar wefan **Creu Cymru** i ddod o hyd i leoliad sy'n cynnal gweithgareddau dawns yn agos atoch chi:

Darllen

DS2: strategaethau darllen i ddatgodi geiriau
DS3: darllen testunau gwahanol
DS5: cipddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio)
DS8: testunau ar sgrin
DD3: adnabod gwybodaeth
DD4: dod i gasgliad

Ysgrifennu

Y12: datblygu geirfa

Beth yw Anthem?

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Ysgrifennu creadigol | Dawns | Drama | Ffilm a'r cyfryngau | Cerddoriaeth | Celfyddydau gweledol a chymhwysol

	<p>http://www.creucymru.com/cy/</p> <p>Mae gan Theatr, Dawns a Pherfformio Cymru restr A-Z ddefnyddiol</p> <p>http://www.theatre-wales.co.uk/companies/</p>	
--	---	--

Tasg 5: Coroeograffu dawns am Fran a Branwen	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FflIRh
<p><i>Y disgyblion i drafod beth sy'n gwneud perfformiad dawns effeithiol a sut y gall storïau fod yn symbyliad</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • TRAFOD/YSGRIFENNU – Pa un o’u Hakas Cymreig oedd y mwyaf llwyddiannus a pham? Gofynnwch i’r disgyblion ystyried beth sy’n gwneud perfformiad dawns da? Ai... <ul style="list-style-type: none"> ➢ Perfformio’r holl gamau yn gywir ➢ Perfformio ar y cyd â dawnsyr eraill ➢ Defnyddio’r mynegiant cywir a chwarae rhan lawn yn y ddawns o’r dechrau i’r diwedd ➢ Os ydych yn gwneud camgymeriad, arhoswch yn y foment, gwnewch symudiadau byrfyfyr a pharhewch â’r ddawns ➢ Bod yn ymwybodol o’r dawnsyr eraill ac uniaethu â nhw? <p>Fel dosbarth, gwnewch ymarfer graddio diemwnt er mwyn gosod y rhain yn nhrefn pwysigrwydd a’u defnyddio fel meini prawf llwyddiant ar gyfer eu dawns nesaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> • TRAFOD – Yn aml caiff dawns ei hysbrydoli gan straeon a chwedlau o’r gorffennol e.e. dawns ryfel draddodiadol yw’r Haka sy’n adrodd stori brwydr un o benaethiaid y Maori • GWYLIO – Stori ‘Bran a Branwen’ o’r Mabinogi https://www.youtube.com/watch?v=5rOm95WT4aU&index=2&list=PLE33783E05BD97741 	<p>Cyfle i goreograffydd ymweld â’r ysgol.</p> <p>Cysylltwch ag ysgolion dawns lleol/sefydliadau dawns cymunedol</p> <p>Y Sefydliad Dawns Gymunedol http://www.communitydance.org.uk/about-community-dance.html</p> <p>Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru http://www.ndcwaales.co.uk/cy/cyfranwch/</p> <p>Bale Cymru http://welshballe</p>	<p>Llythrennedd</p> <p>Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwrandao ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Darllen DS2: strategaethau darllen DS3: darllen testunau gwahanol DS5: cipddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio) DS6: dibenion a nodweddion gwahanol destunau DS8: testunau ar sgrin DD3: adnabod gwybodaeth DD4: dod i gasgliad DYD2: ymateb i destun DYD3: gwneud cysylltiadau DYD4: ffeithiau, damcaniaethau a barn DYD5: safbwyntiau awduron gwahanol DYD6: gwerthuso cynnwys</p>

- **DARLEN** – Atgyfnerthwch y stori drwy ddarllen gwefan y BBC...
http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/society/myths_mabinogion_02.shtml
- **TRAFOD** – Pa ran o'r stori fyddai'n dda ar gyfer creu dawns? Byddin Bran yn cyrraedd Iwerddon? Atgasedd pobl Iwerddon at Branwen? Y creulondeb tuag at Branwen? Y frwydr yn y Neuadd? A allen nhw greu Haka Gymreig yn seiliedig ar y stori hon?

t.co.uk/hafan/

Edrychwch ar y map aelodau ar wefan **Creu Cymru** i ddod o hyd i leoliad sy'n cynnal gweithgareddau dawns yn agos atoch chi:
<http://www.creucymru.com/cy>

Mae gan Theatr yng Nghymru restr A-Z ddefnyddiol
<http://www.theatre-wales.co.uk/companies/>

Gweithdy adrodd storïau... Llenyddiaeth Cymru – edrychwch ar eu

Ysgrifennu

YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol
YY3: cynllunio ysgrifennu

	cronfa ddata Awduron Cymru http://www.literaturewales.org/	
Tasg 6: Creu bwrdd stori ar gyfer dawns y Mabinogion	Cydweithredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FflIRh
<p><i>Bydd y disgyblion yn creu dawns, gan gynllunio eu symudiadau cam wrth gam. Nod Tasg 6 yw coreograffu dawns ar gyfer stori Bran a Branwen ac arddangos syniadau ar ffurf bwrdd stori</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • CYNHESU/SYMUD – Gwyliwch Fideo 1 - ymarfer cynhesu ar gyfer y Ddawns Haka – er mwyn paratoi'r disgyblion ar gyfer eich sesiwn ddawns • TRAFOD – Bydd y disgyblion yn creu bwrdd stori ar gyfer eu dawns. Pam mae'n ddefnyddiol cynllunio yn y ffordd hon? Gallen nhw ystyried yr Haka Gymreig yr ymchwiliwyd iddi eisoes a chreu dawns Haka ar gyfer stori Bran a Branwen. • GWYLIO/SYMUD – Gwyliwch y fideo Haka Branwen a ddarparwyd, sy'n ymchwilio i'r manau cychwyn amrywiol ar gyfer y ddawns er mwyn rhoi ysbrydoliaeth i'r disgyblion. • CREU/SYMUD/YSGRIFENNU – Bydd y disgyblion yn dechrau ymchwilio i'w symudiadau eu hunain a'u gosod gyda'i gilydd. Gan ddefnyddio'r daflen Bwrdd Stori, bydd y disgyblion yn creu darluniadau o siapau'r corff, a disgrifiadau byr i adrodd stori eu 	<p>Cyfle i goreograffydd ymweld â'r ysgol. Cysylltu ag ysgolion dawns lleol / sefydliadau dawns cymunedol Foundation for Community Dance http://www.communitydance.org.uk/about-community-dance.html</p> <p>Mae gan Theatr, Dawns a Pherfformio Cymru restr A-Z ddefnyddiol http://www.theatre-wales.co.uk/companies/</p> <p>Ymweliad dosbarth i weld perfformiad dawns</p> <p>Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru http://www.ndcwales.co.uk/en</p> <p>Bale Cymru</p>	<p>Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLS4: siarad yn glir LLS5: chwarae rôl LLG1: gwrando'n ofalus LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu YY2: cynnwys manylion YY3: cynllunio ysgrifennu YY4: cyflwyno gwaith yn briodol YS1: defnyddio strwythurau penodol wrth ysgrifennu YS2: trefnu gwaith ysgrifennu YS3: nodweddion gweledol YI2: datblygu geirfa YG4: strategaethau sillafu</p> <p>Rhifedd M5: Amser</p>

<p>dawns.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amseru – pa mor hir mae'r Haka a'r Anthem Genedlaethol yn para? Pa mor hir ddylai eich dawns bara? Beth ddylai fod yr isafswm a'r uchafswm o ran hyd perfformiad? • TRAFOD – Anogwch y disgyblion i fod yn drefnus yn eu gwaith – Sut bydd y ddawns yn dechrau? Pam mae'n dechrau yn y ffordd hon? Sut byddwch chi'n defnyddio'r lle sydd ar gael? Sut bydd y ddawns yn gorffen? A fyddwch yn creu llafar-gân neu synau i ategu'r symudiadau? Pa fath o naws rydych chi'n ceisio ei greu? • GWRANDO/ARFARNU – Bydd siaradwr ar gyfer pob grŵp yn rhoi trosolwg o'u dawns a'r dewsiadau a wnaethant. Bydd y disgyblion yn trafod pa ddawns oedd yr un fwyaf diddorol, effeithiol a chyffrous. 	<p>http://welshballet.co.uk/</p> <p>Edrychwch ar y map aelodau ar wefan Creu Cymru i ddod o hyd i leoliad sy'n cynnal gweithgareddau dawns yn agos atoch chi:</p> <p>http://www.creucymru.com/</p>	
--	---	--

Tasg 7: Ymarfer a pherfformio'r ddawns	Cydwethredu ac Adnoddau	Llwybrau cynnydd posibl y FfRhLI
<p><i>Bydd grwpiau yn ymarfer ac yn mireinio eu syniadau. Nod Tasg 7 yw perfformio a recordio'r dawnsfeydd</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • GWYLIO – Dangoswch glip o Diversity – pam mae'r perfformiad yn llwyddiannus? https://www.youtube.com/watch?v=S4dy4UeZmFs • CYNHESU – Cynheswch gyda'r fideo cynhesu ac ailedrychwch ar fideo Branwen i gael ysbrydoliaeth a syniadau pellach ar gyfer gwella eu gwaith fideo Branwen i gael ysbrydoliaeth a syniadau pellach ar gyfer gwella eu gwaith 	<p>Yn ogystal â choreograffwyr, mae potensial i gydweithio ag artistiaid coluro, dylunwyr gwisgoedd, gwneuthurwyr ffilmiau newydd (gallai myfyrwyr mewn colegau addysg bellach / prifysgol helpu fel rhan o brosiect ar y cyd)</p> <p>Mae Theatrau yng Nghymru yn rhestru pob sefydliad celfyddydau</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLS4: Siarad yn glir LLS5: chwarae rôl LLG1: gwrando'n ofalus LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p>

- **YMARFER/MIREINIO** – Bydd grwpiau yn defnyddio eu bwrdd stori i ymarfer eu symudiadau, gan fireinio er mwyn gwneud eu perfformiadau mor effeithiol â phosibl. (Gallai un disgybl o bob grŵp fod yn goreograffydd, gan greu'r symudiadau. Gallech wneud fideo o rannau o'r ddawns ar yr iPad er mwyn i grwpiau allu arfarnu'n annibynnol gyda'i gilydd cyn perfformio'r ddawns i'r dosbarth. Mae hwn yn gyfle i herio disgyblion Mwy Abl a Thalentog sydd â dawn o ran dawnsio, coreograffi a threfnu).
- **PERFFORMIO/RECORDIO** – Bydd grwpiau yn perfformio eu dawnsfeydd i'r dosbarth. Gellir gwneud fideo o'r rhain ar yr iPad.
- **ARFARNU** – A oedd y dawnsfeydd yn llwyddiannus? A oeddent yn gweddu i naws y stori? Sut y gallai grwpiau wella eu dawnsfeydd? Beth y gellid ei wneud yn wahanol er mwyn gwneud y broses yn well ar gyfer y tro nesaf?
- **TRAFOD** – Posibiliadau perfformio/cynulleidfaoedd ar gyfer y dawnsfeydd – gwasanaeth dosbarth ar gyfer rhieni? Gwasanaeth CA2 ar gyfer disgyblion eraill?

perfformio ar restr A-Z, ac mae ganddynt drosolwg defnyddiol o'u lleoliadau

<http://www.theatre-wales.co.uk/companies/>

Gweithgareddau pellach a awgrymir

1. Cyfansoddi anthem ar gyfer yr ysgol neu'r dosbarth
2. Coreograffu dawns y gellid ei dysgu i blant iau yn ystod amseroedd egwyl
3. Trafod thema hunaniaeth drwy gelf a dylunio. Archwilio lliwiau, dyluniadau a symboliaeth er mwyn creu baner ysgol ac arfbais i'r ysgol.
4. Gallai disgyblion ddylunio gwisgoedd ar gyfer eu dawnsfeydd er mwyn gwella'r perfformiad. Gallent weithio gydag artist coluro er mwyn ychwanegu ymhellach at yr effaith.
5. Archwiliwch rifedd a gwyddoniaeth drwy amcangyfrif faint o egni/caloriau maent yn eu defnyddio i berfformio'r ddawns. Pam fod angen dŵr arnynt ar ôl y ddawns?

Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gallai'r dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Dod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Strategaethau darllen	
		Darllen a deall	
		Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	

Beth yw Anthem?

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Ysgrifennu creadigol | Dawns | Drama | Ffilm a'r cyfryngau | Cerddoriaeth | Celfyddydau gweledol a chymhwysol

	Ysgrifennu'n gywir	laith	
		Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd			
Llinyn	Elfen		
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau		
	Cynrychioli a chyfathrebu		
	Adolygu		
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau		
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb		
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig		
	Amcangyfrif a gwirio		
	Rheoli arian		
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd		
	Amser		
	Tymheredd		

Beth yw Anthem?

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Ysgrifennu creadigol | Dawns | Drama | Ffilm a'r cyfryngau | Cerddoriaeth | Celfyddydau gweledol a chymhwysol

	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle	
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau	